



Cyflwyniad

Wrth i'r argyfwng costau byw barhau i effeithio ar gymunedau, ac amhariadau ar y gadwyn gyflenwi roi rhagor o bwysau ar fynediad i fwyd, nawr yw'r amser i fuddsoddi mewn economïau bwyd lleol a mynediad i fwyd cymunedol – mewn cynhyrchu, dosbarthu a seilwaith sy'n gwella mynediad i fwyd iach a chynaliadwy, gan sicrhau swyddi bwyd da, elw teg i ffermwyr, cymunedau iach a balchder lleol. Mae'r briff hwn yn cyflwyno'r ddatl dros harneisio grym partneriaethau bwyd Llefydd Bwyd Cynaliadwy i gyflawni'r uchod, a dros sefydlu Bil Bwyd Da ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig ynghyd â strategaeth gyson ar gyfer bwyd.

Mae partneriaethau bwyd yn chwarae rôl ganolog i ddatblygu, yn ogystal â denu cyllid a buddsoddiad ar gyfer rhaglenni bwyd cynaliadwy sydd o fudd i gymunedau lleol. Drwy wneud hyn, maent yn cyflwyno atebion hirdymor i rai o'r problemau mwyaf taer yn ein system fwyd, gan gynnwys anniogeledd bwyd, annhegwch ac amhariadau ar y gadwyn fwyd, a'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae cynlluniau bwyd a gefnogir ac a arweinir drwy bartneriaeth wedi cael llwyddiant cyson yn esgor ar fanteision ystyrlon a pharhaol i'r gymuned, yn cyrraedd cynulleidfa eang ac yn sefydlu newid parhaol, boed hynny drwy newid polisi a darpariaeth, neu drwy greu diwylliant o ymgysylltu â'r gymuned ac addysgu am fwyd da.

Mae partneriaethau bwyd hefyd yn datblygu ar y cyd strategaethau bwyd ar gyfer eu hardaloedd ac maent yn gyfrifol am eu cyflawni dros yr hirdymor. Fodd bynnag, mae adnoddau'n brin ganddynt yn aml ac maent hwythau yn wynebu dyfodol ansicr. Tra bod llywodraethau'r Alban a Chymru wedi gwneud cynnydd yn ddiweddar i sicrhau cyllid ar gyfer partneriaethau a strategaethau bwyd lleol, nid yw'r un ymrwymiad a'r gydnabyddiaeth i'w gweld mewn gwledydd eraill.

Ein galwadau am weithredu

Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn galw ar y llywodraeth i fuddsoddi mewn partneriaeth fwyd ym mhob awdurdod lleol a buddsoddi'n well mewn economïau bwyd da lleol, swyddi a seilwaith bwyd da, yn ogystal â buddsoddi mewn mynediad i fwyd iach. Rydyn ni hefyd yn galw am fwy o rym i wneud penderfyniadau i'r llywodraethau datganoledig er mwyn targedu buddsoddiadau'n well a bodloni anghenion systemau bwyd lleol.

- Buddsoddi mewn partneriaeth fwyd ym mhob awdurdod lleol, ynghyd â strategaeth fwyd wedi'i chymeradwyo gan y cyngor.
- Bil Bwyd Da ym mhob gwlad, wedi'i ategu gan gorff annibynnol i hyrwyddo gweithredu ac i graffu ar y cynnydd.
- Buddsoddi mewn ffermio amaethecolegol, cynhyrchwyr bach a chanolig eu maint, a gwell llwybrau i'r farchnad.

- Buddsoddi mewn seilwaith bwyd lleol, sgiliau, a chymorth busnes sy'n ffafrio mentrau cymdeithasol sy'n cael eu hysgogi gan werthoedd sy'n cyflawni ar amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd.
- Defnyddio'r gwariant cyhoeddus presennol ar fwyd i gefnogi systemau bwyd lleol a chynaliadwy a chyflenwyr bwyd lleol.
- Buddsoddi mewn rhaglenni iechyd plant a rhaglenni mynediad i fwyd iach, gan gynnwys ehangu prydau ysgol am ddim, cychwyn iach a chynlluniau ffrwythau a llysiau mewn ysgolion, yn ogystal â seilwaith bwyd mewn ysgolion a chymunedau er mwyn rhoi cefnogaeth i dyfu, coginio a bwyta bwyd da.
- Pwerau gwneud penderfyniadau gwell ar gyfer llywodraethau datganoledig er mwyn cyfeirio'r buddsoddiadau mewn ffermio, yr economi a'r seilwaith i'r man lle cânt yr effaith fwyaf ar economïau lleol a lles y gymuned.

Galwadau i weithredu ar gyfer y gwledydd unigol

- Gogledd Iwerddon: DAERA ac Invest Northern Ireland i weithio gyda'i gilydd i dargedu ffrydiau buddsoddi yn well er mwyn rhoi mwy o fudd i fusnesau bwyd bach a chanolig eu maint, nid dim ond y rhai sy'n allforio cynhyrchion, gan roi blaenoriaeth i gadwyni bwyd iachus a chynaliadwy sy'n creu swyddi'n lleol.
- Yr Alban: Cefnogi'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r camau yn y Ddeddf Gwlad Bwyd Da yn lleol, dyrannu 5-10% o'r gyllideb amaethyddiaeth (sy'n disodli arian y CAP) i sefydlu Cronfa Fwyd Leol i helpu awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn systemau bwyd lleol (er enghraifft cynyddu swyddi mewn ffermio a chadw tyddynnau, cefnogi mentrau bach a chanolig, caffael mwy o fwyd lleol a bwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd ac i natur, a gwella mynediad y gymuned i fwyd da).
- Cymru: Dal i gefnogi'r ymdrech i ddatblygu'r rhwydwaith o bartneriaethau bwyd traws-sector fel rhan o Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru.

Pwy ydyn ni

Mae'r rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn un o'r mudiadau cymdeithasol sy'n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas Unedig. Rydyn ni'n fudiad cynyddol o 90+ o bartneriaethau bwyd mewn dinasoedd a mannau eraill ar draws y wlad. Drwy gyfrwng y partneriaethau bwyd traws-sector hyn, mae awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus yn gweithio gyda'r trydydd sector, sefydliadau busnes ac academaidd i weddnewid eu system fwyd leol gyda'r nod o wella iechyd a lles y cyhoedd; meithrin gwytnwch a chysylltiad cymunedol; creu economïau bwyd lleol ffyniannus ac amrywiol; a helpu i fynd i'r afael â'r materion sy'n peryglu cynaliadwyedd megis gwastraff a'r argyfwng hinsawdd a natur.

info@sustainablefoodplaces.org

Mae Sustain: y gynghrair dros well bwyd a ffermio, yn eiriol dros arferion a pholisïau bwyd ac amaethyddiaeth sy'n gwella iechyd a lles pobl ac anifeiliaid, sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn adfer natur, sy'n gwella'r amgylchedd byw a'r amgylchedd gweithio, yn cyfoethogi cymdeithas a diwylliant, ac yn hyrwyddo gwell cydraddoldeb. Mae'n cynrychioli oddeutu 100 o sefydliadau budd cyhoeddus cenedlaethol, ac yn meithrin y mudiad dros

newid, gan weithio gyda llawer o fudiadau eraill tebyg ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.

sustain@sustainweb.org